



Amanita r gwybed gan Alun Williams

Mae yna Tyddyn Madarch ar Ynys Môn, enw sy'n dyddio'n ôl i ddechrau'r 17^{eg}. ganrif. Beth yw tarddiad y fath enw tybed?

COFIWCH GYNHADLEDD LLÊN NATUR 2010, AR ENWAU LLEOEDD

ym Mhlas Tan y bwch ar y 20ed Tachwedd. Manylion ar wefan Llên Natur

Mae'r gwaith o safoni enwau'r ffwng yn mynd rhagddo gan y Grwp Enwau Ffwng (Twm Elias, Dr Bruce Griffiths (arbenigwr iaith), Selwyn Williams a'r Dr. Gareth Griffiths (arbenigwr pwnc). Gwyliwch y gofod.

Y pryd têt awê...

Mi fu cryn dipyn o son yn ddiweddar am y llwynog hwnnw a ymosododd ar ddau blentyn bach yn Llundain. Aeth yn ddadl eitha poeth rhwng y rhai oedd am ddifa pob llwynog trefol rhag ofn i'r un peth ddigwydd eto, a'r rhai oedd yn credu na ddylsid gor-ymateb. Mae'n anarferol iawn i llwynog ymosod ar blentyn, ond ddim yn unigryw o bell ffordd. Mi ymosodwyd ar fabi 3 mis oed oedd yn cysgu ar sofffa mewn tŷ yn Dartford, de Llundain (2002) ac ymosodiad arall yn Croydon yn 1996 – ar fabi 5 mis oed. Yn yr achos yn Dartford, dod i mewn o'r ardd wnaeth y llwynog hwnnw hefyd - anwybyddu'r fam oedd yn cysgu ar gadair arall gerllaw, a cheisio llusgo'r babi allan o'r tŷ. Pan glywodd y tad, oedd yn y gegin, sgrechiadau'r babi a'r fam a rhedeg drwodd – yn fan'o oedd y llwynog yn sefyll ac yn edrych arno fo, fel petae o'n d'eud: 'Be 'di'r holl ffys!? 'Mond dwad i nol y pryd têt awê 'ma ydw i'!

Dach chi byth yn clywed am llwynogod gwledig yn ymosod ar blant. Ond, wrth gwrs, mae rheiny wedi hen ddysgu bod pobl cefn gwlad yn betha peryg ofnadwy ac i'w hosgoi ar bob cyfri. Ond mewn trefi, lle mae unrhyw fywyd gwyllt yn rhywbeth i'w groesawu, mae'r hen gadno yn cael dipyn mwy o barch a chroeso. Mae rhai pobl wrth eu bodda' yn eu gwyllo nhw, a'u bwydo nhw – ac yn falch iawn o gael teulu o llwynogod yn ymgartrefu dan y cwt mewn gardd swbwrbaidd. Be mae hynny'n ei wneud ydi dysgu'r llwynogod trefol i gollu eu hofn o bobol a dwad yn ryw hanner dof. A dyna lle mae'r broblem - oherwydd dydi hi ddim yn bosib dofi llwynog – ddim fel ci. Mae pob ci yn tarddu o'r blaidd, sy'n creadur cymdeithasol a chydweithredol, am fod hela mewn pac yn angenrheidiol i ddal a lladd creaduriaid mawr. Roedd natur gymdeithasol y blaidd yn ei gwneud yn bosib i ddynion cynnar, dros 50,000 o flynyddoedd yn ôl i 'imprintio' ar flaid ei fod o'n rhan o'r pac dynol ac mai y dyn oedd yr arweinydd bob tro. Ond nid dyna natur teulu'r llwynog, sy'n hela adar, llygod, chwilod a phryfid genwair. Mae nhw'n byw mewn grwpiau teuluol llai ac, fel arfer, yn hela'n unigol. Dydi nhw ddim mor hawdd i'w himprintio'n felly – dyna pam na ddofwyd yr un o'r teulu yma gan ddyn erioed. Rhaid derbyn felly mai peth peryg iawn ydi gwneud ffrind o'r creadur bach coch gwyllt hwn yng ngwaelod yr ardd. Oherwydd, be ddigwyddith ydi y bydd o'n colli ei ofn o bobol. A be wedyn pan glywith o sŵn neu ogla prae bychan blasus mewn tŷ yn y stryd nesa? Mae o yn mynd i siawnsio 'i lwc, yn naturiol – mae yn ei natur o i neud!

Beth i'w 'neud felly? Wel, waeth ichi heb a meddwl am geisio difa llwynogod y dinasoedd – mi fyddai hynny'n hollol amhosib yn ymarferol ac mi fyddai'r fath syniad yn cynddeiriogi rhai. Y wers o'r holl firi 'ma ydi na ddylsech chi adael eich babi o fewn cyrraedd llwynog nag unrhyw leidr arall chwaith. Yng ngwledydd Affrica a rhannau o dde Asia mae pobol wedi hen arfer efo creaduriaid rheibus a pheryg (fel sgorpion neu lew). Hyd yn oed yn Awstralia fe gafodd fy nghyfnither, pan yn fabi bach, ei hachub pan welwyd peithon fawr yn dechra dringo i'r goets ati hi.

Addasiad o sgrïpt Twm Elias, Galwad Cynnar, gyda chaniatad Radio Cymru



Llun: Alun Williams

Cyndroni eto

Ymateb Twm Elias i sylw Mair Lloyd Williams (Rhifyn 31): "Swnio'n debyg i'r hyn ddywedai ffermwr mynydd yn Arfon a llefydd eraill hefyd am y math yma o dywydd trymaidd a therfysglyd ym Mehefin / Gorffennaf pan fydd y pry gwyrdd / cleren werdd (neu'r pry glas?) yn niferus â'r defaid mewn peryg o gynthroni – yn enwedig os ydyn nhw'n fudron o gwmpas eu penolau. Bydd ffermwr mynydd yn llunau a thrimio cynffonau'r defaid ddechrau'r haf i leihau'r broblem tra bod ffermwr llawr gwlad yn torri cynffonau'r wryn (ac felly'r defaid pan dyfan nhw). Mae angen gwneud hyn am fod defaid llawr gwlad, sy'n byw ar borfa gyfoethocach, yn futrach eu tinnau beth bynnag, tra bod angen eu cynffonau ar y defaid mynydd – am ei bod yn andros o ddrafftig ar y tir uchel yn y gaeaf fel bod angen rhywbeth i gadw'r pwrs (cader i bobol y de) a'r preifats yn gynnes yn yr oerwynt".

Morfil pigfain ym Mhwllheli



Adroddiad newyddion y BBC, 22 Awst 2010: The body of a baby minke whale has been found washed up on a remote beach by a holiday park. A holidaymaker out walking spotted the mammal, measuring 7.6m (about 25ft) on Sunday morning in a small cove at Hafan y Môr near Pwllheli, Gwynedd. The whale is in a very poor condition, and it probably died on the beach overnight from starvation. Tests will be carried out by the pathologist.

Ar wefan Llên Natur, ewch i Bwletinaw 17 a 24 i gael straeon eraill am forfilod Cymru. Ac ewch i MAPIAU > DYDDIADUR a chwiliwch am


MORFIL ac mi gewch i'r map uchod. Ar y map, cliciwch ar leolbwynt o'ch dewis i gael hanes morfil yno, ers stalwm neu yn ddiweddar. Cliciwch ar y rhif bach glas i gael y stori yn llawn. Ychwanegwch unrhyw gofnodion morfilod sydd yn hysbys i chi nad ydynt ar y map, yn syth i'r wefan neu trwy ebost.

Abermaw, cyn codi'r bont



Diolch i Hugh am dynnu ein sylw at yr olygfa hon o gei y Bermo yn 1863 cyn codi pont y rheilffordd. Tynnwyd y llun o'r un olygfa, uchod ar y dde, ddiwedd mis Awst eleni. I weld parau eraill o luniau "ddoe a heddiw", ewch i'r wefan www.llennatur.com a phwyswch y botwm MAPIAU. Wedyn dewisiwch y mapiau syn perthyn i gronfa LLEFYDD, ac yn y blwch CHWILIO rhwch x2 (sef, yn syml, parau o luniau). Fe welwch fap o Gymru gyda symbolau coch dewisiwch symbol mewn ardal o ddiddordeb i chi ac wedyn, ar y label sydd yn codi yn sgil hynny cliciwch ar y rhif glas yn y gongl uchaf, a hei presto!. (Mae yna bar arall o luniau ar y dudalen nesaf).

Blwyddyn yr isadain felen...fwyaf



Teitl y llun uchod oedd "cariadon", gyda'r sylw anwedus, ond hollol gywir: "Yli - dyma pam fod 'na gymint o'r ff***** yn y trapia eleni!" (mae iaith "liwgar" yn lên hefyd 'mwn!). Ac mae graff canlyniadau trapio'r Golygydd (de) hwnt ag yma ers 1996 yn cadarnhau'r sylw.

Noctua pronuba yw'r enw a roes Linnaeus arno, a hynny am reswm tebyg. Mae'r adennydd pwl, gwinau yn cuddio flach o isadain oren trawiadol (i ddychryn aderyn sy'n ceisio'i ddal mae'n debyg). Ond ffansi Linnaeus oedd bod yr isadain liwgar yn ei atgoffa o bais merched yn yr oes sedet a phiwritanaidd yr oedd yn byw ynddo...pronuba, pronuptial, morwyn briodas - oes rhaid i mi ddweud mwy?. Y syniad oedd bod y fflach o liw ar bais y merched hyn yn ddigon i gynhyrfu dyn. Enwodd eraill o deulu'r isadennydd melyn wrth enwau awgrymog tebyg, ee. *Noctua comes* (=gwraig byw tali).

Jac-do yn pigo plaster

Ydi jac do pan mae hi mewn sefyllfa o lrgu yn pigo ar blaster mewn to i drio cael rhywbeth i'w fwyta? Wedi ffendio Bran yn hen eglwys Llanfaglan ym mis Medi wedi marw a lot fawr, mwy nag arfer o dameidiau o galch (whitewash ar lawr) a'i baw hi ym mhobman.

Ifor Williams, gofawr yr eglwys i The Friends of Friendless Churches

gyda diolch i Hugh G. Roberts



O dri i un mewn canrif



Mi gofiwch y llun chwith uchod yn y Rhifyn diwethaf (32) yn dangos tair rhych ceffyl a throl ganrif yn ôl. Daeth Tom Jones (Cadeirydd CELI) yn ôl i ddweud ei fod yn amau mai yng nghyffiniau Cader Idris y'i tynnwyd. Dyma ofyn felly am gadarnhad Paul Williams, Warden Cader Idris i CCGC a dyma dderbyn y cenadwri canlynol ganddo (a'r llun ar y dde uchod): "Ffordd Ddu a Chraig Las, Meirionnydd. Tynnwyd ar 18 Awst 2010 o tua'r un safle a'r llun 'Llwybr tair rhych ceffyl a throl' " Mae'r tair rhych bellach wedi mynd yn un. (Tom - wyt ti'n wladwr craff iawn ac yn adnabod dy ardal).

Ha' bach Mari Pant

Yn ôl Eurwyn Griffiths, yng nghyffiniau Malltraeth, Môn arferir yr ymadrodd "Ha' bach Mari Pant" am heulwen yr hydref. Un o fatwyr Niwbwrch oedd Mari Pant a dyma pryd yr arferai gywain y moresg pob blwyddyn Mair Williams

Atal y wasg - mwy am forfilod

About the time of the D-Day landings [6 Meh 1944] many dead pilot whales were washed ashore in the Conway estuary. One morning as he was going to Dr Garretts home, Mr Thomas saw a dead whale near the house.....

Steffan ab Owain: North Wales Weekly News 8 Tach 1956

Stamp ar fyd natur



Ydi rhain yn dod ag atgofion melys o wyliau i chi?
Dewch a mwy o stampiau natur - a rhowch gynnig ar enwi'r rhywogaethau ar rhain (atebion isod).

Cloewedd o'r brig: cneuen castan, dellien Gron, corstrwynen ddu, rhuban sbaen, pabl coch

B&Q a'i fys ar y pyls!

Mwy am anifeiliaid (nad ydynt yn) Iwerddon (Rhifyn 31):
"Ar fy ymweliad i wyl Dun Laoghaire eleni, bum yn sgwrsio efo hogia Birdwatch Ireland ar eu stondin yn sioe "Cool Earth". Cefais stori ganddynt am gwmi B&Q yn y Gogledd, yn hybu gwerthiant offer cael gwared o dyrchod daear. Wyddoch chwi faint o dyrchod daear sydd yn yr Iwerddon - dim!!"
Ifor Williams

Mwsoglu...mwy

Yn Rhifyn 18 sonwyd am fwsogl arbennig a ddefnyddid i galcio simneoedd tair canrif yn ôl yn Sweden. Dyma hanes tebyg gan Hugh Evans, am fwsoglu, yn ei gyfrol enwog Cwm Eithin (1931):

"Yr oedd llawer o'r hen dai wedi eu hadeiladu heb forter - tyllau yn y muriau, a'r to heb ei deirio, os llechau a fyddai, ac felly yn oerion iawn. Anfonid am y mwsoglw'r cyn dechrau'r gaeaf. Ai yntau i'r mynydd i hel mwsog, lle y cai beth hir a gwydn; ac yna gyda damau bychain o haearn tebyg i gnyon ac o wahanol dewdwr, gwthia'r mwsogl i'r tyllau gan ei guro'n galed gyda gordd fechan, yn union fel y gwneir bwrdd llong gyda charth. Os nad wyf yn camgofio, yn y Mynydd Main y dywedai Thomas Jones, Lidiart y Gwartheg, yr oedd y mwsoglau gorau i'w gael at y gwaith".

A dyma ddywedodd Evan Jones (1850-1928):

"Yn yr hen amser roedd llawer o dai gwlad wedi eu toi a llechi tewion a didriniaeth iawn o'u cymharu a llechi yr oes hon, ac yr oeddynt mor arw fel yr oedd yn angenrheidiol i ddodi mwsogl [mwsogl] yn ofalus yng nghysylltiadau'r llechi oll. Y prif amcan trwy hyn oedd sicrhau cerrig y to rhag y storm a gwneud yr adeilad yn fwy cysurus. Gwnaed y gwaith o fwsynyn fel rheol yn yr hydref er i'r to fod yn ddiddos a diogel erbyn gerwinder y gaeaf. Yr oedd ym meddiant y mwsynwr fach bychan at y gorchwyl o dynnu mwsogl.... Math arall oedd fachau llai, tebyg i grafanc ceiliog i'w ddefnyddio mewn llaw. Gwelir ar rai hen lyfrau vestries gofnodion am swm o arian wedi ei dalu i faswniaid am fwsynyn toion eglwysir wlad.

Cymru Evan Jones - detholiad o bapurau Evan Jones Ty'n Pant, Llanwrtyd, gol. Herbert Hughes (Gomer 2009)

Unrhyw sylwadau eraill am yr hen grefft hon, ac yn enwedig y math o fwsogl a ddefnyddid yn y parthau hynny? Gall Hugh Evans yn hawdd fod yn disgrifio *Fontinalis antipyretica* (Rhifyn 18), ond nid yw'n byw yn arbennig yn y mynydd.

Trowytoedd a cholofnau ddŵr



The UK's most deadly Tornado: Six people were killed, houses and a chapel were wrecked and over a hundred people injured when a force 6 Tornado struck Edwardsville, on Monday the 27th of October 1913.

"Men were lifted from their feet and dashed to the ground" according to a press report. Roofs were lifted several miles. A hayrick weighing several tons was carried for a mile. Near Pontypridd half a ton of brick chimney was carried several hundred yards. It was associated with a thunderstorm that was seven miles wide, although the tornado was only about a hundred yards wide. The death toll is Britain's highest for a Tornado.

<http://www.alangeorge.co.uk/tornado.htm>

Colofn ddŵr ar Ynys Enlli: gan Peter Hope Jones



(Hydref 1996). Tybed ai'r 29ain o'r mis ydoedd gan i ni gofnodi y diwrnod hwnnw "diwedd cyfnod o wyntoedd difrodus - Pont Britannia wedi cau ddoe -

dim fferi catamaran i Iwerddon - adeiladau wedi eu difrodi yn ne Cymru.

Hendre Cennin, Clynnog Fawr. Daeth y sylw hwn i law gan Twm Elias i'r nodyn am ddiffrod i garafannau ym Mytllins Pwllheli ar 15 Awst 1989 ar ôl storm: "Wrth i'm ddiweddar frawd godi'r bore ar ôl y storm honno sylwodd ar yr hyn a dybiodd oedd awyren fach wedi chwalu'n rhacs yng nghanol cae cyfagos yn Hendre Cennin, Clynnog Fawr. Aeth allan ar frys a gweld nad awyren ond carifan oedd o, wedi cael ei chodi gan y dymestl, a'i chwythu dros y caeau a'r gwrychoedd yn un rhwtj yr holl ffordd, yn ôl pob son, o Bwllheli.

(A dyma ddywedodd Huw "Tywydd" am y digwyddiad: *strong SW flow, warm moist air, and that part of the Llŷn coast is prone to tornado & waterspout formation. Always remember as a boy returning to Birkenhead from Abersoch in the 1950s and seeing 2 waterspouts out to sea off Butlins. Can't remember the dates, think it was mid 50s when we had some horrendous summers.* Mor lleol ydi'r trowytoedd yma - cofnod o Dalsarnau yr un diwrnod, sef 15 Awst 1989: gwynt De Orllewin (SW) *Dry, sunny intervals. Strong S.W. wind.* [ond dim son am drowynt!]

Dyddiadur Joan Addyman


PC Glaw

"PC Glaw" yw un enw am law gan Heddlu Pwllheli. Sail hyn yw y byddai ymladd yn digwydd rhwng llanciau ifanc meddw y tu allan i'r West End ym Mhwillheli yn bur aml yn hwyr ar nos Sadwm. Ond ddigwyddai hynny ddim pan fyddai'n bwrw glaw. Dywediad gan yr Heddlu, felly, fyddai: "Mi fydd PC Glaw yn gwneud y gwaith inni heno". Roedd PC Glaw yn help mawr i gadw torcyfraith a fandaliaeth i lawr ar adegau eraill hefyd. (fe'i clywais gan Kelvin Jones, Tremadog oedd yn blusmon ym Mhwillheli tan yn lled ddiweddar)

Twm Elias

Mae ymddygiad pobl yn beth dirgel. Ydych chi'n cofio yn Rhifyn 15 graff yn dangos amseroedd geni y plant y bu'r fydwraig Mair Madog yn gyfrifol am eu geni dros gyfnod ei gyrfa. Tri o'r gloch y bore oedd y penllanw ac yn enghraifft o'r cloc biolegol dirgel sydd yn rhan o gyfansoddiad chi ferched. Dyma'r graff unwaith eto. A oes tybed enghreifftiau eraill o gysylltiadau anisgwyl rhwng ymddygiad pobl a threigl y byd o'u cwmpas. Wel oes, amryw...misglwyf misol merched (cysylltiad efo'r lleuad?), plant yn fwy anystywallt yn y dosbarth pan fydd hi'n wyntog, a gwallgoffrwydd yn gysylltiedig a'r lloer? Mwy o ddamweiniau car a dynion yn gyfrifol ar ddiwrnod poeth yr haf (pan fydd merched ifanc ar y pafin yn gwisgo llai o ddillad).

Diolch i Twm Elias am rai o'r syniadau



Mantell alarus brin ym Mae Colwyn

Diolch i Dafydd Lewis am dynnu sylw at y stori hwn ddiwedd mis Awst: *A rare butterfly has been seen in Colwyn Bay for the first time in a decade. The Camberwell Beauty - a migrant which*



occasionally flies into Britain from Europe - was spotted by Geoff Benfield in his conservatory in Llanellian. "It just suddenly appeared in the conservatory," said Geoff. "From what I read, they live on beech and willow trees - all the things we've got in the immediate area."

BBC Radio Wales

Ond yn ôl Dyddiadur Llên Natur, nid dyma'r fantell alarus gyntaf i gyrraedd gogledd Cymru:

12 Awst 1995: Hefin Jones ar y radio yn son bod iar fach dramor a Camberwell beauty wedi cyrraedd de Lloegr ar raddfa fawr o'r cyfandir

21 Awst 1995: Camberwell beauty yn Nhregarth ond son bod rhywun wedi eu bridio nhw?

6 Mai 1996: Coedydd Aber, Camberwell beauty!!! Fyny ac I lawr dros Bontnewydd, Aber tua thri o'r gloch y pawns.

19 Mai 1996: Mike Howe yn dweud bod monarch a Queen of Spain Fritillary wedi eu cael yn ddiweddar yn ogystal a Camberwell Beauty yng Ngogledd Ewrop. Dick Squires wedi cael CB ffres yr olwg hefyd yn ddiweddar

Cefais innau (DB) fantell dramor (mewnfudwr arall, llawer mwy cyffredin na'r fantell alarus) yr un diwrnod a mantell alarus Mr. Benfield. Tybed oedd yna fewnliafid o dde Ewrop ddiwedd mis Awst eleni, ynteu a oes rhywun wedi bod yn eu magu nhw yn lleol?